2

# Cynefinoedd ysgol - ydyn nhw’n addas?

## Amcan Dysgu

- Deall beth yw cynefin a sut mae'n gartref i rai anifeiliaid.
- Gwerthfawrogi bod gan anifeiliaid gwahanol ofynion ac mae hyn yn dylanwadu ar y math o gynefin y maent yn byw ynddo.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

**Gwyddoniaeth**

Drwy waith maes, dylent gael y cyfle i astudio'r planhigion a'r anifeiliaid mewn dau amgylchedd lleol cyferbyniol.

Y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar yr hyn sy'n tyfu ac yn byw yn yr amgylcheddau hynny.

Sut mae pobl yn effeithio ar yr amgylchedd lleol.

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Plant yn tasgu syniadau ynghylch cynefinoedd.
- Darllen drwy broffiliau creaduriaid a'u cysylltu â’r cynefinoedd priodol.
- Trafod y nodweddion allweddol sy'n angenrheidiol i bob creadur oroesi yn ei gynefin.
- Ysgrifennu cerdyn post yn disgrifio'r cynefin a pha mor addas ydyw.

## Adnoddau

Proffiliau creaduriaid

Ffotograffau o'r creaduriaid

Camera digidol

Amlinelliad o'r cerdyn post

# Beth mae ei angen ar greaduriaid yn eu cynefinoedd?

**Amlinelliad o'r Wers**

- Atgoffa’r plant am  y gwahanol fathau o gynefinoedd ac enwi unrhyw blanhigion neu anifeiliaid y mae'r plant yn gwybod amdanynt a allai fod yn byw ynddynt.
- Cyflwyno chwe chymeriad cynefin: Bryn - Tylluan Wen (coetir); Nia - Madfall Ddŵr Gyffredin. (dŵr); Gruff - Sioncyn y Gwair (glaswelltir); Siôn - Corryn (waliau); Llinos - Buwch Goch Gota (gwely rhosod); Siani - Dryw (gwrych). Edrychwch ar ffotograffau'r cymeriadau. Trafod beth ydynt, i ba rywogaeth y maent yn perthyn a ble y gellid dod o hyd iddynt.
- Dosbarthu’r disgrifiadau o'r cymeriadau i'r dosbarth. Mewn grwpiau, rhaid didoli'r disgrifiadau a'u cysylltu â'r cymeriadau. Marciwch unrhyw gliwiau yn y testun sy'n helpu i wneud penderfyniadau gwybodus.
- Trafod beth byddai ei angen ar bob cymeriad yn eu cynefin er mwyn goroesi. Holi cwestiynau i hybu trafodaeth -  a fyddai Nia'n gallu byw ble mae Siôn yn byw? Pam?
- Cyfeirio at y cynefinoedd a nodwyd yn yr arolwg o'r lle chwarae. Gofyn cwestiynau penodol i werthuso'r hyn sydd yno e.e. Oes llawer o goed? Oes unrhyw ddŵr?
- Yn y dosbarth, mae'r plant yn dewis un o'r cymeriadau ac yn dychmygu eu bod wedi ymweld â thir eu hysgol. Mae'n rhaid iddynt anfon cerdyn post adref, yn disgrifio'r cynefin, yr hyn oedd yn dda neu'n wael amdano ac a hoffent fyw yno. Annog y plant i ystyried a yw eu cynefin yn cynnig dŵr, bwyd a chysgod i'w cymeriad hwy.
- Darperir templed o'r cerdyn post a gellid tynnu llun o'r man a ddewiswyd ar gefn y cerdyn post neu gellid defnyddio ffotograff digidol

